Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Children's Partnership

PARTNERIAETH PLANT SIR GAERFYRDDIN
'GRANT CYCHWYNOL GOFAL PLANT'

Beth yw diben y grant?

Mae'r grant ar gael i gefnogi ddarpar darparwyr gofal plant gyda threuliau cychwynnol sy'n gysylltiedig â sefydlu darpariaethau **NEWYDD Gofal Dydd Llawn, gofal dydd Sesiynol, Clwb Gofal Ar ôl Ysgol neu Gofal yn ystod Gwyliau** er mwyn ehangu'r math o ofal plant sydd ar gael o amgylch y Sir, i alluogi rhieni / gofalwyr dderbyn gofal plant sydd at eu hanghenion unigol a'i amgylchiadau.

Mae'r grant ar gael trwy ffynhonnell cyllid refeniw i gefnogi treuliau sy'n ymwneud a sefydlu darpariaeth newydd. Er enghraifft treuliau staff, treuliau yn ymwneud â hyrwyddiad a chyhoeddusrwydd, offer ac adeiladau.

Pwy sydd yn gallu ymgeisio?

Unrhyw grŵp neu unigolyn sydd yn darparu Gofal Dydd Llawn, Gofal dydd Sesiynol, Clwb Gofal Ar ôl ysgol neu Ofal yn ystod gwyliau (ac eithrio gwarchodwyr*) sydd wedi cyflawni cofrestriad llawn yn ddiweddar gydag Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), neu sydd yn y broses o gofrestru ac sydd wedi derbyn enw archwiliwr sydd wedi ei chlustnodi i ddelio â'r cais.

Faint gallaf ei hawlio?

Mae lefelau'r grant canlynol wedi eu selio yn ddibynnol ar y math o ddarpariaeth sydd yn cael ei sefydlu. Dim ond sefydliadau sydd yn disgyn o fewn yr ardaloedd sydd wedi eu canfod o fewn Asesiad Ddigonolrwydd Gofal Plant Sir Gaerfyrddin 2008 o fod gyda diffyg math penodol o ofal plant e.e Meithrinfa dydd Gymraeg Llanelli fydd yn derbyn yr uchafswm sydd wedi clustnodi fel y dangosir isod.

Sefydliad	Grant wedi clustnodi
Meithrinfa dydd	Uchafswn o £1,000
Cylch Meithrin	Uchafswm o £500
Clwb A'r ôl ysgol a gwyliau	Uchafswm o £500
Cynllun Chwarae Haf	Uchafswm o £500

Sut i wneud cais?

Bydd rhaid i chwi gwblhau a dychwelyd ffurflen gais "Grant Cychwynnol Gofal Plant" a chynnwys unrhyw ddogfennau angenrheidiol i gefnogi eich cais. Gallwch dderbyn ffurflen gais trwy gysylltu â swyddfa Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin ar 01267 246555.
Os bydd angen rhagor o wybodaeth ynglŷn â'ch cais neu gwblhau'r ffurflen, bydd ein swyddog datblygu Gofal Plant yn barod i'ch cynghori a'ch cynorthwyo.

Beth yw graddfa amser am y ceisiadau?

Rydym yn croesawu ceisiadau unrhyw adeg. Nid oes dyddiad cau wedi ei osod i dderbyn ceisiadau.

* Ni fydd gwarchodwyr yn cymwys i ymgeisio am Grant cychwynnol Gofal Plant. Mae'r Bartneriaeth Palant yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr o ofal plant mae'r gwarchodwyr yn ei ddarparu o fewn y Sir ac mewn cydnabyddiaeth o hyn meant yn cyllido'r gost ar gyfer Cwrs Cyflwyniad I Arferion gwarchod Plant (Yn y Cartref) yn ogystal â'r gost sydd yn ymwneud ac archebu pecyn Dechrau da i holl warchodwyr newydd sydd yn cynnwys:-

- Aelodaeth o'r NCMA am flwyddyn
- Gwerth 12 mis o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
- Cynrychiolaeth gyfreithiol am ddim
- Llyfr cyfrifon / cofrestr presenoldeb / llyf damweiniau , digwyddiadau a meddyginiaeth.
- Blanced dân.

Mae gwarchodwyr yn gymwys i geisio am grant cynaladwyedd.

Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Children's Partnership

Amodau y grant?

- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth fod wedi cofrestru gyda AGGCC, neu fod yn y broses gofrestru ac yn gallu enwi'r archwiliwr sydd wedi ei chlustnodi i ddelio a'r cais.

- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth ymaelodi gyda Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru, Clybiau Plant Cymru neu Cymdeithas Cenedlaethol Meithrifeydd Cymru.

- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth sicrhau llefydd gofal plant llawn /rhan amser i rieni sydd yn dymuno dychwelyd i'r gwaith neu ddilyn hyfforddiant.

- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth sicrhau swyddi llawn a rhan amser.

- Dylai'r grant gael ei ddefnyddio i sicrhau bod llefydd gofal plant newydd yn cael ei sefydlu.

- Bydd angen dangos tystiolaeth am strategaeth cynaladwyedd ar gyfer y dyfodol.
  (Gofynnir i chwi ddanfon cynllun busnes am y 3 blynedd nesaf)

- Mae'n rhaid agor cyfrif banc busnes.

- Bydd cofnod yn cael ei gadw o bob cais sydd wedi ei wneud ac mi fydd yn ofynnol i bob grŵp/ unigolyn cyflwyno adroddiad gwariant manwl gyda chrynodeb byr yn datgan sut mae'r grant wedi bod o fudd i'r sefydliad a nifer o lefydd gofal plant sydd wedi ei greu.

- Os ddarganfyddir bod cais twyllodrus wedi ei gwneud bydd disgwyl i'r grant cael ei ad-dalu yn gyflawn.

  NEU

- Mae'r unigolyn yn symud y busnes allan o'r Sir o fewn blwyddyn i'r dyddiad agor.

- Mae gan y Cyngor yr hawl i dynnu'n ôl neu adennill arian y grant os na cedwir at yr amodau uchod.